Sefyllfa Iechyd Cyhyrysgerbydol 2026

Arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol eraill mewn rhifau



Arthritis UK Cymru

Cynnwys

	Cyflwyniad a dulliau	3
	Beth yw arthritis?	5
1	**Iechyd y boblogaeth**	**6**
	Faint o bobl sydd ag arthritis?	7
	Pa fesurau a ddefnyddir yn ein data amlder?	8
	Beth yw cyflyrau cyhyrysgerbydol?	9
	Anghydraddoldebau iechyd	10
2	**Person**	**15**
	Effaith arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol	16
	Realiti byw gydag arthritis	21
	Arthritis, cyflyrau cyhyrysgerbydol a chyflyrau hirdymor lluosog	23
	Arthritis, cyflyrau cyhyrysgerbydol ac iechyd ehangach	25
3	**Darpariaeth**	**31**
	Mynediad at ofal	32
4	**Effaith gymdeithasol**	**38**
	Effaith ar ofal iechyd a'r economi	39
5	**Cyflyrau lle mae arthritis yn brif symptom**	**41**
	Osteoarthritis	42
	Gowt	43
	Arthritis rhewmatoid	44
	Arthritis psoriatig	45
	Spondyloarthritis echelinol	46
	Arthritis idiopathig ieuenctid (JIA)	47
6	**Cyflyrau lle mae arthritis yn un symptom ymhlith llawer**	**48**
	Lwpws	49
7	**Cyflyrau cyhyrysgerbydol eraill**	**50**
	Poen cronig	51
	Poen cefn	55
	Ffibromyalgia	56
	Osteoporosis a thoresgyrn breuder	57
	Rhestr termau	58
	Cyfeiriadau	59

Cyflwyniad a dulliau

Beth yw Sefyllfa Iechyd Cyhyrysgerbydol?

Mae Sefyllfa Iechyd Cyhyrysgerbydol yn gasgliad o'r ystadegau mwyaf cyfredol ledled y DU ar arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol (MSK) eraill. Mae hyn yn cynnwys faint o bobl sydd â'r cyflyrau hyn, y nifer sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflyrau hyn, effaith y rhain ar y person, ar y system iechyd a chymdeithas, ac anghydraddoldebau y gellir eu canfod o fewn yr holl bynciau uchod.



I bwy mae hyn?

Mae'n adnodd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, llunwyr polisi, arweinwyr iechyd cyhoeddus, ymchwilwyr, unigolion sydd â'r cyflyrau hyn, ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn iechyd cyhyrysgerbydol. Credwn, gyda'r wybodaeth orau, y gallwch chi godi ymwybyddiaeth, gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, teimlo'n fwy hyderus ac, yn y pen draw, helpu mwy o unigolion sydd â chyflyrau cyhyrysgerbydol, fel arthritis.

Arthritis UK yw'r elusen arthritis flaenllaw, sy'n newid bywydau trwy ymchwil, ymgyrchu a chymorth.

Mae dros 10 miliwn o oedolion, pobl ifanc a phlant yn y DU yn byw gydag arthritis. (1) (2) Dyna un o bob chwech ohonom sy'n byw gyda'r poen, y blinder, yr anabledd, y straen meddyliol a'r straen ariannol y gall ei achosi. Gall yr effaith fod yn enfawr, gan effeithio ar y gallu i weithio, gofalu am deulu, a hyd yn oed fyw'n annibynnol. Ac eto, ar gyfer cyflwr sy'n effeithio ar gynifer, nid yw'n cael ei ddeall yn dda ac nid oes digon yn cael ei wneud. Yma yn Arthritis UK, rydym yn buddsoddi mewn ymchwil i driniaethau gwell sy'n newid bywydau, yn cynnig gwybodaeth a chymorth, ac yn ymgyrchu ar y materion sydd bwysicaf i bobl sy'n byw gydag ef.

10 miliwn

Nifer y bobl yn y DU sydd ag arthritis.


Gallwch ddysgu mwy am Arthritis UK yma

Dulliau

Mae data, gwybodaeth a mewnwelediadau am gyflyrau cyhyrysgerbydol fel arthritis ar gael gan nifer o ffynonellau. Yn Arthritis UK, rydym yn barnu'r holl dystiolaeth yn seiliedig ar rinweddau unigol ac mae 'tystiolaeth dda' yn dystiolaeth sy'n cynrychioli anghenion, profiadau a safbwyntiau unigolion sydd ag arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol yn gywir. Gall gwahanol fathau o dystiolaeth helpu i ateb gwahanol fathau o gwestiynau. Y gamp yw dewis tystiolaeth yn seiliedig ar y cwestiwn a'r hyn sydd fwyaf perthnasol a defnyddiol ar gyfer ei ateb.

Mae Ffigur 1 yn darlunio hierarchaeth o dystiolaeth. [3] Mae'n bwysig nodi, er bod gan fframweithiau o'r fath eu rhinweddau mewn cyd-destunau penodol, nad ydynt heb eu cyfyngiadau, oherwydd gall rhestru tystiolaeth yn y ffordd hon ffafrio rhai ffynonellau tystiolaeth yn anuniongyrchol dros eraill. Daw'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn bennaf o astudiaethau meintiol a thystiolaeth o'r byd go iawn. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys tystiolaeth a gynhyrchwyd o ddulliau methodolegol eraill, ac efallai na fydd rhai ohonynt yn uchel eu rhestru mewn hierarchaethau o'r fath.

Mae'r math hwn o dystiolaeth, sy'n tynnu ar brofiad bywyd o gyflyrau cyhyrysgerbydol fel arthritis, yn ychwanegu mwy o ddyfnder a chyd-destun at rai o'r ystadegau a gyflwynwn yn yr adroddiad hwn.



Ffigur 1. Hierarchaeth tystiolaeth

Beth yw arthritis?

Mae arthritis yn cyfeirio at gymalau poenus, anystwyth, neu gyfyngedig. Mae'r symptomau hyn yn gyffredin mewn cyflyrau sy'n achosi niwed neu lid i'r cymalau. Mae'r rhain yn cynnwys osteoarthritis (OA), cyflyrau arthritis llidiol hunanimiwn gan gynnwys spondyloarthritis echelinol, arthritis gwynegol, arthritis crisial (fel gowt), neu fel symptom o glefydau meinwe gyswllt llidiol (fel lwpws).

Defnyddir arthritis hefyd fel term cyffredinol ar gyfer ystod o gyflyrau lle mae arthritis yn brif symptom.

Mae'r rhan fwyaf o fathau o arthritis yn gyflyrau hirdymor. Y math mwyaf cyffredin yw osteoarthritis, lle nad yw'r corff yn gallu cynnal ac atgyweirio'r cymalau gan arwain at gartilag teneuo a difrodi, oherwydd heneiddio neu anaf i gymal. Mae osteoarthritis yn effeithio'n bennaf ar oedolion hŷn ac mae'n anghyffredin o dan 45 oed. Yn aml mae gan unigolion sydd ag arthritis nifer o gyflyrau hirdymor.

Mathau llai cyffredin o arthritis yw cyflyrau hunanimiwn, fel arthritis gwynegol (RA), arthritis psoriatig a spondyloarthritis echelinol. Yma, mae'r system imiwnedd yn ymosod ar y cymalau a'r meinweoedd cyfagos ac yn eu llidio gan achosi chwydd, poen, anystwythder a difrod i'r cymalau. Fel arfer, mae'r cyflwr yn dechrau ar ei anterth yng nghanol oed, ond gall y rhain daro ar unrhyw oedran gan gynnwys arthritis idiopathig ieuenctid (JIA) yn ystod plentyndod.

Mae arthritis hefyd yn symptom cyffredin mewn cyflyrau hunanimiwn eraill, sy'n brin yn bennaf, gan gynnwys lwpws, a Syndrom Behçet.

Mae cyflyrau fel gowt yn fathau o arthritis crisial, lle mae unigolion yn cael penodau arthritis difrifol ond hunan-gyfyngedig a achosir gan grisialau microsgopig yn cael eu dyddodi yn y cymalau ac o'u cwmpas. Gan y bydd gan y person yn aml fwy nag un math o arthritis ar yr un pryd (fel osteoarthritis ochr yn ochr â math o arthritis llidiol), ni ellir amcangyfrif maint y boblogaeth sydd ag arthritis trwy adio niferoedd y gwahanol fathau mwyaf cyffredin. Yr amcangyfrif gorau ar hyn o bryd yw bod gan rhwng 10 ac 11 miliwn o bobl yn y DU arthritis [1] [4] gyda thua 450,000 o oedolion yn cael diagnosis o un o'r prif gyflyrau arthritis bob blwyddyn. [1] [4] [9] [13] [50]




01

Iechyd y boblogaeth

Faint o bobl sydd ag arthritis?

Gellir mesur pa mor gyffredin yw cyflyrau cyhyrysgerbydol ar wahanol adegau yn ystod taith rhywun i gael diagnosis



1

mae'r person yn profi symptomau.

Megis cymalau anystwyth.



2


Mae'r person yn ymgysylltu â'r system gofal iechyd ynglŷn â'u symptomau.

e.e. trwy eu meddygfa.

3

Mae'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn dechrau'r broses ddiagnostig.

Gallai hyn gynnwys archwiliad corfforol, neu fewnbwn gan arbenigwr.



4

Mae'r person yn cael diagnosis wedi'i gadarnhau.

Mae hyn yn golygu bod ganddyn nhw enw ac esboniad clir am eu symptomau.

Gallwn fesur nifer y bobl sydd wedi profi symptomau penodol, neu sydd wedi nodi bod ganddyn nhw gyflwr penodol drwy arolygon.

Ar y pwynt hwn, gall y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol nodi cod, ar gyfer y symptomau neu'r diagnosis tebygol, yng nghofnod gofal iechyd y person. Enghreifftiau o system godio clinigol yw codau SNOMED neu Read.

Unwaith y bydd y diagnosis wedi'i gadarnhau, gellir ychwanegu'r cod clinigol perthnasol at nodiadau'r person.

Yn gyffredinol, mae'r cronfeydd data cenedlaethol dienw o ddata gofal iechyd dim ond yn cynnwys codau a gofnodwyd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, nid data testun rhydd.

Mae hyn yn golygu os na chaiff cod ei nodi, neu os defnyddir y cod anghywir (hyd yn oed os yw'r diagnosis wedi'i gofnodi mewn nodiadau mewn mannau eraill yng nghofnodion claf) ni fydd ymchwilwyr yn cofnodi hyn yn eu dadansoddiad. Mae hyn yn debygol o danamcangyfrif gwir gyffredinolrwydd y cyflwr.

Pa fesurau a ddefnyddir yn ein data cyffredinolrwydd?

Amcangyfrifon gan y rhai sy'n hunan-adrodd	Amcangyfrifon gan y rhai sydd â diagnosis tebygol	Amcangyfrifon gan y rhai sydd â diagnosis wedi'i gofnodi
8.8 miliwn Nifer y bobl sy'n adrodd am boen cefn isaf mewn unrhyw flwyddyn benodol yn y DU. (14)	**10 miliwn** Nifer yr oedolion sydd â diagnosis tebygol o osteoarthritis. (2)	**450,000** Nifer yr oedolion sydd â diagnosis cofnodedig o arthritis gwynegol. (2) (4)
28 miliwn Nifer y bobl sy'n adrodd am boen cronig yn y DU. (2) (6) (7) (8)	**1.6 miliwn** Nifer yr oedolion sydd â diagnosis tebygol o gowt. (2) (9)	**10,000** Nifer y plant sydd â diagnosis cofnodedig o arthritis idiopathig ieuenctid (JIA). (10) (11)
	220,000 Nifer yr oedolion sydd â diagnosis tebygol o spondyloarthritis echelinol. (12)	**60,000** Nifer yr oedolion sydd â diagnosis cofnodedig o spondyloarthritis echelinol. (4) (2)
	200,000 Nifer yr oedolion sydd â diagnosis tebygol o arthritis psoriatig. (2) (4)	



[1] Safonedig o ran oedran

Beth yw cyflyrau cyhyrysgerbydol?

Mae cyflyrau cyhyrysgerbydol (MSK) yn broblemau gyda'r cyhyrau, yr esgyrn, y cymalau a'r meinweoedd cysylltiol cyfagos, sy'n arwain at gyfyngiadau dros dro neu gydol oes mewn gweithrediad, a'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd.


Maent fel arfer yn cael eu nodweddu gan boen a chyfyngiadau mewn symudedd a deheurwydd, gan gynnwys cyflyrau fel arthritis, poen cefn a gwddf, a ffibromyalgia. Gall rhai cyflyrau cyhyrysgerbydol fel osteoporosis fod yn ddiboen.

21.3 miliwn

Nifer y bobl yn y DU sy'n byw gyda chyflwr cyhyrysgerbydol. (14)

Mae **20.65 miliwn o oedolion** (dros 20 oed) yn byw gyda chyflwr cyhyrysgerbydol yn y DU, mae hynny'n fwy nag 1 o bob 3 o bobl. (14)

Mae **615,000 o blant** a phobl ifanc (dan 20 oed) yn byw gyda chyflwr MSK yn y DU. (14)



Oedolion sy'n byw gyda chyflwr cyhyrysgerbydol (y rhai dros 20 oed) a phlant a phobl ifanc sy'n byw gyda chyflwr cyhyrysgerbydol (y rhai rhwng 0 a 19 oed) (14)

Yr Alban

Oedolion
1,700,000 | 39%
Plant
51,000 | 5%

Gogledd Iwerddon

Oedolion
544,000 | 37%
Plant
20,000 | 5%

Lloegr

Oedolion
17,398,000 | 39%
Plant
513,000 | 5%

Cymru

Oedolion
978,000 | 40%
Plant
31,000 | 5%

Noder efallai na fydd y niferoedd yn cyfateb i gyfansymiau oherwydd talgrynnu.

Anghydraddoldebau iechyd

Anghydraddoldebau iechyd yw 'gwahaniaethau annheg ac osgoiadwy mewn iechyd ar draws y boblogaeth, a rhwng gwahanol grwpiau o fewn cymdeithas'. [15]


Yma rydym yn cyflwyno data ar y 5 pwnc hyn:

1. Amddifadedd
2. Pwysau
3. Ethnigrwydd
4. Oedran
5. Gwahaniaethau rhwng dynion a menywod

1. Amddifadedd

Mae arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol yn fwy cyffredin ymhlith y rhai sy'n byw mewn ardaloedd sydd â mwy o amddifadedd.

Mwy o gyffredinolrwydd osteoarthritis y glun a'r pen-glin mewn pobl dros 45 oed sy'n byw yn y 10% sydd â'r amddifadedd mwyaf Lloegr [2]. [16] [17]




[2] Ar hyn o bryd, yn y DU, dim ond yn Lloegr y mae'r data hwn ar gael yn gyhoeddus

Cyflyrau cyhyrysgerbydol

Mae pobl sy'n byw yn yr 20% sydd â'r amddifadedd mwyaf yn fwy tebygol o adrodd am arthritis neu gyflwr cyhyrysgerbydol hirdymor o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr 20% gyda'r amddifadedd lleiaf [4]. (7) (23) (25)

Cynnydd mewn cyflyrau cyhyrysgerbydol hirdymor ymhlith y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig [3,5].



2. Pwysau

Mae unigolion sy'n profi lefelau uwch o amddifadedd yn fwy tebygol o fod yn byw gyda gorbwysau neu ordewdra na'r rhai sy'n profi lefelau is o amddifadedd. (21)

Mae ardaloedd o amddifadedd wedi gweld cynnydd mewn cyffredinolrwydd osteoarthritis. Mae'r cynnydd mewn cyffredinolrwydd unigolion sy'n byw gyda gordewdra yn yr ardaloedd hyn yn cyfrif am 50% o'r risg ychwanegol ar gyfer osteoarthritis y pen-glin. (22)

Mae'r risg o ddatblygu osteoarthritis yn cynyddu 1% am bob


1kg/m²

o gynnydd yn y BMI (20)




Mae'r risg o ddatblygu osteoarthritis yn cynyddu

3% am bob 5cm o gylchedd ychwanegol o gwmpas y canol (20)



Mae cyffredinolrwydd unigolion sy'n byw gyda gordewdra yn cynyddu gydag amddifadedd (7) (21) (23) (24)




[3] Nid yw Gogledd Iwerddon wedi'i chynnwys yn y graff hwn gan nad oes data ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gyfer nifer yr achosion o gyflyrau cyhyrysgerbydol sydd ag amddifadedd amrywiol.
[4] Diffinnir cyflwr cyhyrysgerbydol hirdymor fel cyflwr neu salwch sydd wedi para neu y disgwylir iddo bara am flwyddyn neu fwy
[5] Mae colofnau Lloegr yn cynrychioli pobl sy'n byw yn y 10% lleiaf a mwyaf difreintiedig. Tra bod colofnau Cymru a'r Alban yn cynrychioli pobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig.

3. Ethnigrwydd

Mae cyflyrau cyhyrysgerbydol yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau ethnig leiafrifol, fodd bynnag, mae data'n aml yn amrywio o ran pa grwpiau sy'n cael eu nodi fel rhai â'r cyfraddau uchaf o'r cyflyrau hyn. Mae canfyddiadau o'r arolwg cleifion meddygon teulu, a gynhaliwyd yn Lloegr, wedi dangos mai grwpiau ethnig Sipsiwn Gwyn neu Deithiwr Gwyddelig (33.4%), Du Caribïaidd (21.7%), Gwyn Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig (21.3%) a Gwyn Gwyddelig (21.1%) yw'r rhai mwyaf tebygol o adrodd am broblem gyhyrysgerbydol hirdymor. [25]

Mwy o gyflyrau cyhyrysgerbydol hirdymor yn gyffredin mewn rhai grwpiau ethnig lleiafrifol yn Lloegr (16 oed+) [25]



Mae'r bariau lliw mafon yn dynodi grwpiau ethnig â chyffredinolrwydd uwch.

Mewn rhai achosion, dim ond pan edrychwch ar y data ar gyfer dynion a menywod ar wahân y mae nifer anghymesur cyflyrau cyhyrysgerbydol mewn rhai grwpiau ethnig leiafrifol yn dod yn amlwg. [26]

Er enghraifft, mae data Health Survey for England (HSE) yn dangos bod cyflyrau cyhyrysgerbydol yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ymhlith menywod Pacistanaidd (29.1%). [26]

29.1%


Canran y menywod Pacistanaidd sydd â chyflwr cyhyrysgerbydol.

4. Oedran

Arthritis

Mae nifer yr achosion o osteoarthritis yn cynyddu gydag oedran. Y grŵp oedran gyda'r nifer uchaf yw pobl 85-89 oed lle mae gan **42%** osteoarthritis.

Mae cyffredinolrwydd OA mewn unrhyw gymal yn cynyddu gydag oedran. [2] [27]




Mae'r rhan fwyaf o bobl rhwng 45 a 70 oed pan gânt ddiagnosis o arthritis gwynegol.[28] [29]

Cyflyrau cyhyrysgerbydol

Mae cyflyrau cyhyrysgerbydol yn effeithio ar bobl o bob oed ond yn dod yn fwy cyffredin wrth fynd yn hŷn.

- Mae **2.7 miliwn o bobl** o dan 35 oed (9%) yn byw gyda chyflwr cyhyrysgerbydol. [2] [14]
- Mae **10.1 miliwn o bobl** rhwng 35 a 64 oed (38%) yn byw gyda chyflwr cyhyrysgerbydol. [2] [14]
- Mae **7.9 miliwn o bobl** 65 oed a throsodd (61%) yn byw gyda chyflwr cyhyrysgerbydol. [2] [14]

Mae cyffredinolrwydd cyflyrau cyhyrysgerbydol yn cynyddu gydag oedran. [14]



Gwahaniaethau rhwng dynion a menywod


Mae gan arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol wahanol gyffredinolrwydd rhwng dynion a menywod.


Arthritis

Mae arthritis rhewmatoid 2 i 3 gwaith yn fwy cyffredin ymhlith menywod nag ymhlith dynion. (28)

Mae spondyloarthritis echelinol radiograffig yn cael ei ddiagnosio'n amlach mewn dynion (3:1) o'i gymharu â menywod. (29)

Mae gan spondyloarthritis echelinol an-radiograffig (lle nad yw difrod yn weladwy ar belydr-x safonol) ddosbarthiad cyfartal rhwng dynion a menywod. (29)





6 miliwn

Nifer y menywod sydd ag osteoarthritis yn y DU. (1)

4 miliwn

Nifer y dynion sydd ag osteoarthritis yn y DU. (1)

Cyflyrau cyhyrysgerbydol yn y DU

Gwelir anghydraddoldebau iechyd hefyd ymhlith y rhai sydd â phoen cronig (a elwir hefyd yn boen parhaus).

I gael rhagor o wybodaeth am y rhain, gweler canlyniadau Arolwg Iechyd Lloegr.

02

Person

Effaith arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol


Effaith ar fywyd

Mae cael arthritis neu gyflwr cyhyrysgerbydol arall yn un o'r cyfranwyr mwyaf at flynyddoedd yn byw gydag anabledd (YLD).

Mae blynyddoedd yn byw gydag anabledd (YLD) yn fesur sy'n cyfuno nifer yr achosion o glefyd â sgôr ar gyfer lefel anablu'r clefyd hwnnw.

Mae un YLD yn cynrychioli blwyddyn o fywyd iach yn cael ei golli oherwydd anabledd neu salwch. (32)

Gellir mesur ansawdd bywyd gan ddefnyddio sgôr Ansawdd Bywyd hunan-adroddedig, lle mae sgôr o 1 =iechyd perffaith. Er enghraifft, mae presenoldeb unrhyw gyflwr hirdymor yn gysylltiedig â sgôr Ansawdd Bywyd hunan-adroddedig cyfartalog o 0.79, ond os yw arthritis neu boen cefn yn bresennol, y sgôr Ansawdd Bywyd hunan-adroddedig cyfartalog yw 0.71. (33)



Cyflyrau Cyhyrysgerbydol a Blynyddoedd yn Byw gydag Anabledd [14]

Mae poen cefn isaf yn cyfrif am
970,000 o YLDau

Mae poen gwddf yn cyfrif am
299,000 o YLDau

Mae osteoarthritis yn cyfrif am
334,000 o YLDau

Mae arthritis rhewmatoid yn cyfrif am
62,000 o YLDau

Mae gowt yn cyfrif am
24,000 o YLDau

Cyflyrau cyhyrysgerbydol eraill
334,000 o YLDau



Gwaith

Gall arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol effeithio ar allu person i weithio.

Mae unigolion sydd ag arthritis **20% yn llai** tebygol o fod mewn gwaith na rhywun sydd heb arthritis. [35] [36]

Pobl mewn gwaith


Mae gan 1 o bob 10 o weithwyr presennol y DU gyflwr cyhyrysgerbydol. [37]

Nid yw **1 o bob 3** o weithwyr sydd â chyflwr hirdymor wedi'i drafod gyda'u cyflogwr. [40]


Collwyd **27.3 miliwn** o ddiwrnodau gwaith yn y DU yn 2025 oherwydd cyflyrau cyhyrysgerbydol. Mae hyn yn cyfrif am 18% o'r holl ddiwrnodau gwaith a gollwyd. [41]

Cyflyrau cyhyrysgerbydol yw'r **3ydd rheswm mwyaf** cyffredin dros golli diwrnodau gwaith, dim ond ar ôl 'Salwch Bach' ac 'Arall'. [41]

Cyfran o bobl mewn cyflogaeth [38]



Miliynau o ddiwrnodau gwaith wedi'u colli oherwydd cyflyrau cyhyrysgerbydol [41]



Cododd canran y gweithwyr yn y DU a nododd fod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor o:

Mawrth 2016 **29%** → **Mawrth 2023** **36%** [39]

Cyflyrau cyhyrysgerbydol yw'r ail ddiagnosis mwyaf cyffredin (ar ôl cyflyrau iechyd meddwl) ar nodiadau ffitrwydd a ysgrifennwyd gan feddygon teulu yn Lloegr, o fis Gorffennaf 2024 i fis Mehefin 2025. [42]

16%

Canran y nodiadau ffitrwydd a roddwyd i gleifion gan feddygon teulu yn Lloegr a oedd ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol rhwng Gorffennaf 202 a Mehefin 2025. [42]

53%


Canran y nodiadau ffitrwydd a gyhoeddwyd ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol a nodwyd fel penodau a barodd 5 wythnos neu fwy yn 2024 i 2025. [42]

53%

Canran y bobl sydd â chyflwr cyhyrysgerbydol sy'n dweud bod eu symptomau'n cael effaith negyddol ar waith. [34]


8%

Canran y bobl (5.890) a oedd yn derbyn cymorth gan gynllun Mynediad i Waith y DU yn 2024/25 a oedd â chyflwr cyhyrysgerbydol. [44]



14%

Canran yr absenoldeb salwch o fewn GIG Lloegr rhwng Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026 a oedd oherwydd problemau cefn a chyflyrau cyhyrysgerbydol eraill. Mae hyn yn cyfateb i golli 3,974,000 o ddiwrnodau gwaith mewn 12 mis. [43]



1.35 miliwn

people who are economically inactive because of long-term sickness reported that they have a musculoskeletal health condition. (39)

Ym mis Mawrth 2023, mae nifer y bobl sy'n nodi problemau gyda'u coesau neu eu traed wedi codi gan **243,000 (29%)** ers 2019. (39)

Ym mis Mawrth 2023, mae nifer y bobl sy'n nodi problemau gyda'u cefn neu eu gwddf wedi codi gan **217,000 (28%)** ers 2019. (39)

Mae nifer yr hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i'r Adran Gwaith a Phensiynau ddechrau symud aelwydydd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i Gredyd Cynhwysol yn 2024.

Mae gan **17% (372,194)** o fenywod sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ym Mhrydain Fawr yn 2025 glefyd y system gyhyrysgerbydol neu'r meinwe gyswllt fel eu prif gyflwr. (45)

Mae gan **10% (200,853)** o ddynion sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ym Mhrydain Fawr yn 2025 glefyd y system gyhyrysgerbydol neu'r meinwe gyswllt fel eu prif gyflwr. (45)

13% (573,044)

Canran y rhai sy'n hawlio lwfans cyflogaeth a chymorth (ESA) ym Mhrydain Fawr yn 2025 sydd â chlefyd y system gyhyrysgerbydol neu'r meinwe gyswllt fel eu prif gyflwr. (45)



Realiti byw gydag arthritis

Effaith arthritis

Daw'r canfyddiadau ar y dudalen hon a'r nesaf o arolwg profiad byw Arthritis UK 'Wedi Gadael yn Aros, Wedi Gadael Ar Ôl: Y Realiti o Fyw gydag Arthritis'. (190) Mae'r canlyniadau'n cyflwyno cipolwg pwerus o realiti byw gydag arthritis yn y DU. Wedi'i adrodd trwy brofiadau byw a straeon personol, mae'n cwmpasu profiadau o ddiagnosis, triniaeth, rheolaeth a chefnogaeth, ynghyd â'r costau personol ac ariannol.

1 o bob 3

Nifer y bobl (32%) sy'n dweud bod arthritis wedi effeithio'n ddifrifol neu'n ddifrifol iawn ar eu bywyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

6 o bob 10

Nifer y bobl (60%) sy'n byw mewn poen rywfaint neu'r holl amser oherwydd eu cyflwr arthritis.

4 o bob 10

Nifer y bobl (44%) a deimlai nad oedd pobl yn deall eu cyflwr nac effaith arthritis ar eu bywydau.

Dywedodd unigolion wrthym fod eu harthritis wedi cael effaith negyddol ar eu perthnasoedd personol, cwsg, hobïau a chynllunio teulu.

Yr angen mwyaf heb ei ddiwallu oedd blinder. Ar draws pob math o arthritis, blinder oedd y symptom a gafodd ei leddfu leiaf gan driniaeth. Dywedodd 70% o'r ymatebwyr fod eu triniaeth yn helpu 'Ddim o gwbl' neu 'Ddim llawer' gyda blinder.

Nid yw arthritis yn effeithio ar bawb yn gyfartal

Roedd unigolion o raddau cymdeithasol is, oedolion iau (18 i 44), a'r rhai â chyflyrau llidiol hunanimiwn yn gyson yn adrodd am brofiadau gwaeth ar draws pob pwnc, gan gynnwys adrodd nad yw eu harthritis yn cael ei reoli cystal, symptomau poen mwy difrifol, a lefelau uwch o anawsterau iechyd meddwl oherwydd eu cyflwr.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr adroddiad Wedi Gadael yn Aros, Wedi Gadael Ar Ôl

Mae cael diagnosis yn bwysig ond mae unigolion yn aros yn rhy hir i gael un.

4 o bob 10

Nifer y bobl (43%) a deimlai fod y broses o gael diagnosis wedi cymryd gormod o amser.

1 o bob 2

Y nifer (48%) a deimlai nad oedd eu symptomau'n cael eu cymryd o ddifrif neu eu bod wedi'u tanamcangyfrif pan oeddent yn ceisio nodi eu cyflwr arthritis gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, uchaf mewn graddau cymdeithasol is.

2 o bob 3

Y nifer (66%) a ddywedodd fod aros am driniaeth wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl.

Mae heriau o ran cael mynediad at driniaeth a chymorth effeithiol.

Mwy na hanner

Dywedodd 54% nad yw triniaeth yn eu helpu "i fyw'r bywyd maen nhw eisiau ei arwain".

4 o bob 10

Y nifer (37%) a ddywedodd fod anhawster teithio i gael triniaeth yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt ei chael.

Gall unigolion ag arthritis gael trafferthion ariannol oherwydd eu cyflwr.

1 o bob 2

Nifer (50%) y bobl a ddywedodd fod arthritis wedi effeithio ar eu gallu i weithio mewn rhyw ffordd.

O'r rhain, mae

4 o bob 10

o bobl (39%) wedi rhoi'r gorau i weithio oherwydd eu harthritis.

Dywedodd dros draean o bobl wedi ymddeol

(35%) fod arthritis wedi chwarae rhan yn eu penderfyniad i ymddeol.

4 o bob 10

Nifer y bobl (42%) a ddywedodd fod eu bod ag arthritis wedi cynyddu eu gwariant personol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Arthritis, cyflyrau cyhyrysgerbydol a chyflyrau hirdymor lluosog



1 o bob 4

Nifer yr oedolion yn y DU sy'n byw gyda dau gyflwr hirdymor neu fwy. (46) (47)



Mae 1 o bob 5 o unigolion sydd ag osteoarthritis yn profi symptomau iselder a gorbryder. (51)

Mae gan unigolion sydd ag OA risg o

24%



yn uwch o glefyd cardiofasgwlaidd na phobl heb OA. (52)

Mae gan unigolion sydd ag OA risg

61%



yn uwch o gael diabetes mellitus na'r rhai heb arthritis. (53)

Mae cyflyrau hirdymor lluosog, neu aml-morbidrwydd, yn cyfeirio at pan fydd unigolyn yn byw gyda dau gyflwr hirdymor neu fwy.

Mae **1 o bob 2 o bobl yn Lloegr** (dros 32 miliwn) yn byw gyda dau gyflwr hirdymor neu fwy (52.8%). (48) (2)

Yn Lloegr, roedd yr oedran canolrifol ar gyfer dechrau byw gyda dau gyflwr hirdymor neu fwy yn 56 oed yn 2004 ond yn 2019 roedd yr oedran canolrifol yn 46 oed. Mae hyn yn dangos bod pobl yn profi aml-morbidrwydd yn gynharach mewn bywyd. (48)

Disgwylir i gyffredinolrwydd pobl â 4 neu fwy o gyflyrau cronig yn y DU bron ddyblu o: 9.8% yn 2015 i 17% yn 2035. (47)

Arthritis

Mae mwy nag un cyflwr hirdymor yn gyffredin mewn unigolion sydd ag arthritis.

Mae unigolion sydd ag OA **1.2x yn fwy** tebygol o gael cyflwr hirdymor ychwanegol na phobl hebddo. (50)

Mae unigolion sydd ag OA **2.5x yn fwy** tebygol o gael tri chyflwr ychwanegol neu fwy na phobl hebddo. (50)

Mae cyffredinolrwydd iselder mewn unigolion sydd ag arthritis gwynegol **2 i 3 gwaith yn uwch** nag mewn rhai heb y cyflwr. (54)

Mae cyflyrau cyhyrysgerbydol yn gyffredin iawn mewn unigolion sydd â chyflyrau hirdymor lluosog.

Mae bron i **4 o bob 10** o bobl (36%) sydd â chyflyrau hirdymor lluosog yn byw gyda chyflwr iechyd corfforol a meddyliol. (46) (47)

Mae gan **1 o bob 5** oedolyn (21%) yng nghanol oed (46 i 48) ym Mhrydain sydd â chyflyrau hirdymor lluosog broblemau cefn rheolaidd. (55)

Mae **1 o bob 8** o bobl (13.4%) yn Lloegr yn nodi eu bod yn byw gydag o leiaf dau gyflwr hirdymor, ac mae un ohonynt yn gysylltiedig â chyflyrau cyhyrysgerbydol. (56)

Mae cyffredinolrwydd nifer o gyflyrau hirdymor yn cynyddu gyda heneiddio.

Mae **1 o bob 3** oedolyn (34%) sydd rhwng 46 a 68 oed yn byw gyda nifer o gyflyrau hirdymor ym Mhrydain. (55)

Mae gan **6 o bob 10** o bobl rhwng 65 a 84 oed gyflyrau hirdymor lluosog. (46) (47)

Mae gan **8 o bob 10** o bobl 85 oed neu hŷn gyflyrau hirdymor lluosog. (46) (47)



Mae aml-morbidrwydd yn gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol.

Mae pobl sy'n profi lefelau uwch o amddifadedd yn llawer mwy tebygol o nodi dau gyflwr neu fwy a gallant ddisgwyl eu datblygu 10 i 15 mlynedd yn gynharach na'r rhai sy'n profi lefelau is o amddifadedd. (46) (47)

Mae oedolion o gefndiroedd mwy difreintiedig hyd at

43%

yn fwy tebygol o gael nifer o gyflyrau hirdymor yng nghanol oed (46 i 48) o'i gymharu â'r rhai o gefndiroedd llai difreintiedig. (55)

Arthritis, cyflyrau cyhyrysgerbydol ac iechyd ehangach

Mae unigolion sydd ag arthritis, cyflwr cyhyrysgerbydol, neu boen cronig (a elwir hefyd yn boen parhaus) yn fwy tebygol o gael problemau iechyd ehangach fel iechyd meddwl gwael, gorbwysau ac anweithgarwch corfforol. Mae'r cysylltiadau yma'n gymhleth. Mae rhai oherwydd ffactorau risg cyffredin fel amddifadedd.


Mae rhai ffactorau risg yn achosol, fel pwysau corff cynyddol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at osteoarthritis y pen-glin, neu bobl sy'n cael trafferth bod yn weithgar yn gorfforol oherwydd arthritis poenus neu gyflyrau cyhyrysgerbydol

Gall y perthnasoedd hyn hefyd fod yn ddwyffordd, gan gynnwys lle mae poen cronig yn gwaethygu iechyd meddwl, ac mae iechyd meddwl gwael yn gwaethygu poen cronig.

Gorbwysau a gordewdra

Gall byw gyda gorbwysau neu ordewdra gynyddu risg pobl o ddatblygu cyflyrau arthritis fel osteoarthritis a gowt.

Mwy o bobl sy'n byw gyda gorbwysau a gordewdra yn gyffredin ymhlith y rhai sydd â chyflwr cyhyrysgerbydol hirdymor [57] [58] [59]



6 o bob 10

Nifer yr oedolion yn y DU sy'n cael eu dosbarthu fel rhwun sy'n byw gyda gorbwysau neu ordewdra. (57) (58) (59)

7 o bob 10

Nifer yr oedolion (70%) dros 16 oed sydd â chyflwr cyhyrysgerbydol hirdymor wedi'u dosbarthu fel rhywun sy'n byw gyda gorbwysau neu ordewdra. (57) (58) (59)

Mae'r risg o ddatblygu OA yn cynyddu 3% am bob cynnydd o 5cm o gwmpas y canol. (20)

Mae'r risg o ddatblygu OA yn cynyddu 1% am bob 1kg/m2 ychwanegol yn y BMI. (20)



1 o bob 4


Nifer y bobl ag arthritis psoriatig sy'n cael eu dosbarthu fel rhywun sy'n byw gyda gordewdra. (60)

54%

Canran yr oedolion yn Lloegr sy'n byw gyda gordewdra sy'n nodi poen cronig.(6)

BMI cyfartalog cleifion sydd wedi cael clun a phen-glin newydd [61] [62] [63]

Mae gordewdra yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddifrod i gymalau sy'n dwyn pwysau, fel y pengliniau a'r cluniau, oherwydd y llwythi anarferol o uchel y mae'n rhaid iddynt eu cario. [64] Mewn bron i chwarter (24.6%) o bobl sydd â phoen pen-glin newydd, gellir priodoli'r symptomau i fyw gyda gorbwysau neu ordewdra. [65]



Mae BMI cyfartalog unigolyn sydd wedi cael llawdriniaeth amnewid clun yn y categori gordewdra, ac mae BMI cyfartalog unigolyn sydd wedi cael llawdriniaeth amnewid pen-glin yn y categori gordewdra dosbarth 1.

2x

Mae pobl sy'n byw gyda gordewdra ddwywaith yn fwy tebygol na rhywun sydd â phwysau iach o ddatblygu gowt ac maent yn fwy tebygol o'i ddatblygu yn iau. [66]

10%

Mae gan bobl sy'n cael eu dosbarthu fel rhai sy'n byw gyda gordewdra risg 10% yn uwch o boen cefn isaf na'r rhai sy'n cael eu dosbarthu â phwysau iach. [67]

31%


Mae gan bobl sy'n cael eu dosbarthu fel rhai sy'n byw gyda gordewdra risg 31% yn uwch o arthritis gwynegol na'r rhai sy'n cael eu dosbarthu â phwysau iach. [68]

15%

Mae gan bobl sy'n cael eu dosbarthu fel rhai sydd dros bwysau risg 15% yn uwch o arthritis gwynegol na'r rhai sy'n cael eu dosbarthu â phwysau iach. [68]

Anweithgarwch corfforol

Gall bod yn anweithgar yn gorfforol, a ddiffinnir fel gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol dwyster cymedrol yr wythnos, gynyddu risg pobl o ddatblygu cyflyrau cyhyrysgerbydol penodol. (69)



Mae tua

1 o bob 4

o bobl yn y DU yn anweithgar yn gorfforol. (70) (58) (71)

60%

Canran yr unigolion sydd ag arthritis gwynegol sy'n anweithgar yn gorfforol. (73)

34%

Canran yr unigolion sydd â phoen cronig sy'n anweithgar yn gorfforol. (6)


20%

Canran yr ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon a nododd 0 fel nifer y dyddiau lle maent wedi cwblhau o leiaf 30 munud o weithgarwch corfforol (anweithgar). (72)

Mae unigolion sydd â chyflwr cyhyrysgerbydol hirdymor tua

2x

yn fwy tebygol o nodi eu bod yn anweithgar yn gorfforol na'r rhai heb gyflwr cyhyrysgerbydol. (58) (70) (71)



Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn lleihau risg pobl o:



Boen cefn isaf gan **33%**

Poen OA clun a phen-glin gan **6%**

Toresgyrn y clun gan **24%**

Iselder gan **25%**

Cwympiadau gan **76%**


Mae'r rhai sy'n cael trafferth gyda'u cyflyrau cyhyrysgerbydol yn llai tebygol o fod yn weithgar yn gorfforol ond mae ganddyn nhw'r mwyaf i'w ennill, os cynigir y gefnogaeth gywir iddyn nhw.

8 o bob 10

(77%) Y nifer a holwyd gyda chyflyrau cyhyrysgerbydol a ddywedodd eu bod eisiau cymorth ymarferol i'w helpu i fod yn fwy weithgar yn gorfforol. (79)

7 o bob 10

(70%) Nifer y bobl a holwyd sydd â chyflyrau cyhyrysgerbydol a ddywedodd yr hoffent fod yn fwy weithgar yn gorfforol. (79)



56%

Y ganran a holwyd sydd â chyflyrau cyhyrysgerbydol a ddywedodd fod eu poen, eu blinder a'u deheurwydd yn rhwystr sylweddol i'w gallu i fod yn weithgar yn gorfforol. (79)

Chyflwr iechyd

People with arthritis, MSK conditions or chronic pain are more likely to have mental health conditions.



1 o bob 4

Nifer y dynion (23.7%) ag arthritis gwynegol sy'n datblygu iselder o fewn 5 mlynedd o gael diagnosis. (77)



1 o bob 5

Nifer yr unigolion (20%) sydd ag OA sy'n profi symptomau iselder a gorbryder. (51)



1 o bob 3

Nifer y menywod (36.5%) ag arthritis gwynegol sy'n datblygu iselder o fewn 5 mlynedd o gael diagnosis. (80)



1 o bob 5

Nifer yr unigolion (20%) ag arthritis psoriatig sydd ag iselder. (81)

1.5x

Mae'r tebygolrwydd o gael cyflwr iechyd meddwl hunan-adroddedig 1.5 gwaith yn uwch mewn pobl â chyflwr cyhyrysgerbydol o'i gymharu â phobl heb gyflwr cyhyrysgerbydol. (82)

4x

Mae iselder 4 gwaith yn fwy cyffredin ymhlith pobl sydd mewn poen parhaus o'i gymharu â'r rhai heb boen. (83)

03

Darpariaeth


Mynediad at ofal

Amnewidiadau cymalau ac amseroedd aros trawma ac orthopedig

Triniaeth bwysig ar gyfer osteoarthritis, pan nad yw ymyriadau llai ymwthiol eraill wedi gweithio, yw llawdriniaeth amnewid cymal. Fel arfer, bydd hyn yn amnewid y glun neu'r pen-glin.


Ar ôl effaith pandemig COVID-19, mae nifer y llawdriniaethau i amnewid clun a phen-glin wedi codi, gan ragori ar y nifer a gynhaliwyd cyn y pandemig. (84) (85) (86) (192)

Lloegr




- Gweithdrefnau amnewid clun sylfaenol
- Gweithdrefnau amnewid pen-glin sylfaenol

Cymru




- Gweithdrefnau amnewid clun sylfaenol
- Gweithdrefnau amnewid pen-glin sylfaenol

Gogledd Iwerddon



- Gweithdrefnau amnewid clun sylfaenol
- Gweithdrefnau amnewid pen-glin sylfaenol

Yr Alban



- Gweithdrefnau cymalffurfiad (arthroplasty) y glun
- Gweithdrefnau cymalffurfiad (arthroplasty) y pen-glin

Gostyngodd nifer y llawdriniaethau amnewid cymalau a gynhaliwyd yn 2020 ac maent wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd ers hynny.

Yn 2024, cynhaliwyd **116,901 o driniaethau amnewid clun sylfaenol** yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, a chynhaliwyd 92% o'r rhain oherwydd osteoarthritis. [63]

Yn 2024, cynhaliwyd **134,652 o driniaethau amnewid pen-glin sylfaenol** yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, a chynhaliwyd 98% o'r rhain oherwydd osteoarthritis. [62]


2024



92%

Canran y gweithdrefnau amnewid clun a gynhaliwyd oherwydd osteoarthritis.

2024



98%

Canran y gweithdrefnau amnewid pen-glin a gynhaliwyd oherwydd osteoarthritis.


Amnewid cymalau ac anghydraddoldebau iechyd

Mae unigolion sy'n profi'r amddifadedd mwyaf ledled Cymru a Lloegr yn fwy tebygol o fod angen llawdriniaeth amnewid clun na'r rhai sy'n profi llai o amddifadedd. [87] Eto i gyd, roedd claf sy'n byw yn yr ardal leiaf amddifad yn Lloegr 4.8 gwaith yn fwy tebygol o gael llawdriniaeth amnewid clun etholedig a ariannwyd gan y GIG yn 2016 na chlaf o'r un oedran, rhyw a swyddogaeth clun a oedd yn byw yn yr ardal fwyaf amddifad. [87]

Nifer y bobl sy'n aros am driniaeth trawma ac orthopedig


Lloegr

Yn Lloegr mae'r rhestr aros ar gyfer triniaeth Trawma ac Orthopedig yn cynnwys 818,009 o achosion, mae 2% wedi aros dros flwyddyn am driniaeth (data mis Mawrth 2026). (88)



Cymru

Yng Nghymru mae 88,018 o achosion yn aros am driniaeth Trawma ac Orthopedig gyda 28% yn aros dros flwyddyn ac 1% yn aros dros ddwy flynedd (data mis Mawrth 2026). (89)



Gogledd Iwerddon

Yn ddiweddar, mudodd ymddiriedolaethau Gogledd Iwerddon i system cofnodion cleifion electronig newydd ac felly nid oes gennym ddata tueddiadau cenedlaethol. (91) (92)

Roedd **20,805** o achosion yn aros am driniaeth Orthopedig fel cleifion mewnol ac achosion dydd gyda 57% yn aros dros flwyddyn i gael eu derbyn i lawdriniaeth neu driniaeth fel cleifion dydd neu gleifion mewnol. (91) (92)


Roedd **34,907** o achosion yn aros am driniaeth cleifion allanol Orthopedig gyda 53% yn aros dros flwyddyn am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf i weld ymgynghorydd (data mis Mawrth 2026). (91) (92)

Nifer y bobl sy'n aros am driniaeth trawma ac orthopedig

Yr Alban

Yn yr Alban mae 42,489 o achosion yn aros am driniaeth Orthopedig allanol gyda 15% yn aros am dros flwyddyn (data Mawrth 2026). [90]


Claf mewnol



Yt Alban

Yn yr Alban mae 54,231 o achosion yn aros am driniaeth Orthopedig allanol gyda 7% yn aros am dros flwyddyn (data Mawrth 2026). [90]

Claf allanol



Ansawdd gofal mewn gwasanaethau arthritis llidiol

Mae'r Archwiliad Cenedlaethol o Glefydau Autoimiwn Llidiol Cynnar (NEIAA) yn archwiliad clinigol cenedlaethol sy'n archwilio pa mor gyflym y mae pobl ag arthritis llidiol, clefydau meinwe gyswllt a fasgwlitis systemig yn cael eu diagnosio, eu hasesu a'u trin ledled Cymru a Lloegr. Daw'r data hwn o'u harchwiliad diweddaraf ac mae'n cyfeirio at Ebrill 2025 i Fawrth 2026. (93)

Mae **53%** o unigolion sydd ag amheuaeth o arthritis llidiol yn derbyn apwyntiad rhewmatoleg o fewn 3 wythnos i glinig rhewmatoleg dderbyn atgyfeiriad. Y targed yw i bawb gael apwyntiad o fewn 3 wythnos. Y targed yw i bawb ddechrau triniaeth o fewn 6 wythnos. (93)


Mae **44%** o unigolion sydd ag amheuaeth o arthritis llidiol yn derbyn apwyntiad rhewmatoleg o fewn 3 wythnos i glinig rhewmatoleg dderbyn atgyfeiriad. Y targed yw i bawb gael apwyntiad o fewn 3 wythnos. (93)

Mae **55%** o unigolion ag arthritis llidiol hunanimiwn wedi'i gadarnhau yn derbyn cyffuriau gwrth-rewmatig sy'n addasu clefydau (DMARDs) o fewn 6 wythnos, cynnydd o 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y targed yw i bawb gael eu hatgyfeirio o fewn 3 diwrnod gwaith. (93)

Mae nifer yr unigolion sydd ag arthritis llidiol cynnar sydd mewn cyfnod o welliant wedi aros yn sefydlog ar **33%** (93)

Amrywiad daearyddol

Mae cyfraddau rhyddhad yn amrywio yn ôl daearyddiaeth. (93)




Mae cyfraddau rhyddhad cyffredinol ar ôl 3 mis yn parhau'n sefydlog ar 34% ond mae hyn yn cuddio amrywiad daearyddol sylweddol.



Arthritis idiopathig ieuenctid (JIA)

Mae'r llwybr i blentyn neu berson ifanc gael diagnosis o arthritis idiopathig ieuenctid yn amrywiol ac yn dibynnu ar ffactorau amrywiol megis y symptomau a gyflwynir a ble maen nhw'n byw. O'r herwydd, mae oedi cyn cael diagnosis yn digwydd sy'n arwain at fwy o boen, ac o bosibl mwy o ddifrod i'r cymalau. (94)



Mewn adolygiad ansawdd gofal diweddar, canfuwyd bod

43%

o gleifion yn profi oedi rhwng cyflwyniad cyntaf symptomau ac atgyfeiriad i rewmatoleg. (94)

Yn yr un adolygiad ansawdd gofal, nodwyd oedi wrth ddechrau meddyginiaeth.

Roedd yr oedi hwn yn gyffredin gydag oedi meddyginiaeth yn cael ei weld mewn

32%

o gleifion. (94)

Ni ddylai neb brofi oedi wrth dderbyn meddyginiaeth.

9%

Canran y cleifion a gafodd feddyginiaethau amhriodol. Er enghraifft, rhoddwyd meddyginiaeth drwy'r geg tra bod claf a gofalwyr yn aros i dderbyn hyfforddiant ar sut i roi pigiadau. (94)

Ni ddylid rhoi meddyginiaeth amhriodol i neb wrth aros am hyfforddiant.

Effaith gymdeithasol

Effaith ar ofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r economi

Gwasanaethau iechyd a gofal

Mae'r rhai sydd ag arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol yn fwy tebygol o gysylltu â gofal iechyd sylfaenol, gofal iechyd eilaidd, a gwasanaethau gofal iechyd cymunedol fel ffisiotherapi a'u defnyddio.

MSK conditions accounted for

1.4 miliwn

Roedd cyflyrau cyhyrysgerbydol yn cyfrif am 1.4 miliwn o dderbyniadau i'r ysbyty, 6% o gyfanswm y derbyniadau i'r ysbyty yn Lloegr yn 2024-25. (95)

Cyflyrau cyhyrysgerbydol oedd yn gyfrifol am

1 o bob 7

ymgynghoriadau â meddyg teulu. (1)

Bob blwyddyn bydd

1 o bob 5

oedolyn yn ymgynghori â'u meddyg teulu am gyflwr cyhyrysgerbydol. (96)

Mae **47% o unigolion** sydd â chyflyrau cyhyrysgerbydol hirdymor yn Lloegr yn cymryd pum meddyginiaeth neu fwy yn rheolaidd. (97)

Dosbarthwyd dros **32.5 miliwn** o eitemau presgripsiwn ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol a chlefydau cymalau yn Lloegr rhwng 2023 a 2024. (98)

Costiodd presgripsiynau ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol a ddosberthir yn y gymuned tua **£138 miliwn** yn Lloegr rhwng 2023 a 2024. (98)

Gwasanaethau cymdeithasol


Mae gan oedolion â phoen cyhyrysgerbydol cronig lefelau uchel o ddefnyddio gofal cymdeithasol yn y DU. (99)



Economi

Mae afiechyd cyhyrysgerbydol yn arwain at gostau sylweddol i unigolion, cyflogwyr, y gwasanaeth iechyd a'r economi ehangach.

Canfu dadansoddiad gan York Health Economics Consortium yn 2017 fod cost dyddiau gwaith a gollwyd oherwydd osteoarthritis ac arthritis gwynegol wedi'i amcangyfrif yn £3 biliwn yn 2024 gan godi i £4 biliwn yn 2040. (100)



Mae costau cyfunol o bob math o absenoldeb oherwydd salwch a diweithdra yn y DU tua £100 biliwn y flwyddyn. (40)

Amcangyfrifir bod cyfanswm costau spondyloarthritis echelinol sy'n gysylltiedig â gwaith oherwydd ymddeoliad cynnar, absenoldeb a phresenoldeb yn £11,943 fesul unigolyn sydd â spondyloarthritis echelinol y flwyddyn. (101)

Cost arthritis i'r GIG

Canfu York Health Economics Consortium yn 2017:

- Wrth drin y ddau fath mwyaf cyffredin o arthritis (OA ac RA), rhagwelwyd y byddai'n costio £118.6 biliwn i'r GIG dros y degawd nesaf, o 2017 ymlaen. (100)
- Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, rhagwelir y bydd trin y ddau fath mwyaf cyffredin o arthritis yn costio £13.2 biliwn i'r GIG yn 2025. (100)

Costau rhagamcanedig o

£118.6 biliwn



Cyflyrau cyhyrysgerbydol oedd y trydydd maes mwyaf o wariant rhaglenni'r GIG, sef £4.7 biliwn yn 2013 i 2014. Roedd hyn yn 3.5% o gyfanswm y gwariant yn 2013 i 2014. Os yw'r gyfran wedi aros yr un fath – bydd cyflyrau cyhyrysgerbydol wedi cyfrif am wariant o £5.5 biliwn yn 2019 i 2020 ac amcangyfrif o £6.2 biliwn yn 2023 i 2024 [7]. (102) (103)

[7] Dangosir data ar gyfer 2019-2020 yma i ddangos y cynnydd cyn pandemig COVID-19

05

Cyflyrau lle mae arthritis yn brif symptom

Osteoarthritis


Mae osteoarthritis (OA) yn digwydd pan fydd y corff yn rhoi'r gorau i allu cynnal ac atgyweirio un neu fwy o gymalau – sy'n effeithio'n aml ar y dwylo, y cluniau a'r pengliniau. Mae'r cartilag yn mynd yn denau ac yn anwastad, gan atal y cymal rhag symud yn hawdd. Gall ymdrechion y corff i atgyweirio'r newidiadau hyn arwain at boen, anystwythder a chwydd.

OA a chyflyrau hirdymor eraill

Mae gan unigolion sydd ag OA risg sylweddol uwch o glefyd cardiofasgwlaidd, **24% yn uwch** na phobl heb OA, yn ôl pob tebyg oherwydd ffactorau risg sylfaenol cyffredin ar gyfer y cyflyrau hyn. (52)

Mae **1 o bob 5 o bobl** sydd ag OA yn profi symptomau iselder a phryder. (51)

Nifer yr unigolion ag osteoarthritis y glun a'r pen-glin yn y DU [9]. (5) (2) (193)



Gogledd Iwerddon

Pen-glin: **152,000**

Clun: **91,000**

Yr Alban

Pen-glin: **432,000**

Clun: **263,000**

Cymru

Pen-glin: **274,000**

Clun: **180,000**

Lloegr

Pen-glin: **5,578,000**

Clun: **4,001,000**

Cyffredinolrwydd ac amlder

